

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Datganiad Disgwyliad Cafcass Cymru

Canolfannau Cyswllt Plant â Chymorth

Mae canolfannau cyswllt plant â chymorth yn amgylcheddau sy'n canolbwyntio ar y plentyn ac sy'n cynnig lleoedd diogel, cyfeillgar a niwtral lle gall teuluoedd sydd wedi gwahanu weld eu plant fel y gellir (ail)gychwyn perthnasoedd a lle gall unrhyw gyswllt fod yn ddiogel ac er lles gorau'r plentyn. Mae canolfannau cyswllt yn opsiwn tymor byr cyn ystyried a oes modd a sut y gall trefniadau barhau y tu allan i'r ganolfan gyswllt.

Bydd Cafcass Cymru yn atgyfeirio i ganolfan gyswllt plant ar gyfer cyswllt wyneb yn wyneb neu o bell ac yn ariannu'r cyswllt hwn lle:

- Cafwyd gorchymyn llys mewn Gwrandawiad Cyntaf Penodiad Datrys Anghydfod (FHDRA) ar ôl ymgynghori â'r Cynghorydd Llys Teulu (FCA) neu Weithiwr Cymdeithasol Llys Teulu (FCSW) ar ddyletswydd llys a'i gytuno gan y ddau barti.

neu

- Lle mae'n rhan o argymhelliad adroddiad llys FCA neu FCSW a/neu lle mae Cafcass Cymru yn ymwneud yn weithredol ac yn barhaus â'r achos.

Ar wahân i hyn, mae angen i rieni, partïon a/neu gynrychiolwyr cyfreithiol gyflwyno eu hatgyfeiriad eu hunain yn uniongyrchol i ganolfan gyswllt ac ysgwyddo unrhyw oblygiadau cyllido. Dylai'r Rheolwr Ymarfer ardal sydd ar ddyletswydd herio unrhyw atgyfeiriad cyswllt a wneir gan y llys heb ymgynghori â Cafcass Cymru.

Sawl sesiwn?

- Dylai unrhyw atgyfeiriad i ganolfan gyswllt fod am 3 i 4 (1 awr) sesiwn i ddechrau ac adolygir cynnydd bryd hynny.

- Cyfanswm o 6 sesiwn (1 awr) yw'r uchafswm fesul atgyfeiriad.

- Gall fod hyblygrwydd o ran hyd y sesiynau cyn belled nad yw cyfanswm yr oriau fesul atgyfeiriad yn fwy na 6. Er enghraifft, efallai y bydd angen cynnal sesiynau 2 awr yn enwedig lle mae aelod o'r teulu yn byw gryn bellter i ffwrdd. Felly, y nifer uchaf o sesiynau ar gyfer yr atgyfeiriad hwn fyddai 3.

Atgyfeiriadau at Ganolfannau Cyswllt Plant â Chymorth

- Yn ôl Cymdeithas Genedlaethol y Canolfannau Cyswllt Plant (NACCC) "Mae canolfannau cyswllt plant â chymorth yn addas ar gyfer teuluoedd pan na nodwyd unrhyw risg i'r plentyn na'r rhai o amgylch y plentyn, na ellir ei reoli gan y ganolfan, yn ystod gweithdrefn derbyn".

- Lle mae risg wedi'i nodi, yna dylid ystyried bod atgyfeiriad i ganolfan gyswllt plant dan oruchwyliaeth yn fwy priodol.

- Mae canolfannau'n gyfrifol am hysbysu'r Tîm Gwasanaethau a Gomisiynir cyn pen 10 diwrnod gwaith ar ôl derbyn yr atgyfeiriad os ydynt yn bwriadu derbyn yr atgyfeiriad.

- Ni ddisgwylir i ganolfannau cyswllt plant â chymorth baratoi adroddiad, ac nid oes disgwyl i staff/gwirfoddolwyr o'r ganolfan fynychu'r llys i roi tystiolaeth.
- Gall yr FCA/FCSW ymweld â phartïon yn y lleoliad (neu leoliad arall) ar gyfer ymweliadau arsylwi achlysurol os/pan ystyrir eu bod er lles plant a lle glynwyd at unrhyw ofynion iechyd a diogelwch.
- Mae canolfannau'n gyfrifol am hysbysu'r heddlu/gwasanaethau cymdeithasol yn uniongyrchol am unrhyw bryderon amddiffyn/diogelu plant, a hynny ar unwaith.
- Mae canolfannau'n gyfrifol am adrodd wrth Cafcass Cymru am unrhyw ymddygiad treisgar, bygythiol, ymosodol neu wahaniaethol, sy'n ymwneud ag oedolion neu blant, a hynny o fewn un diwrnod gwaith ac yn ysgrifenedig yn dilyn hynny.
- Mae canolfannau'n gyfrifol am gwblhau ac anfon gwybodaeth fonitro Cofnod Cyswllt â Chymorth i'r Tîm Gwasanaethau a Gomisiynir cyn pen 7 diwrnod ar ôl i'r cyswllt ddod i ben.

Mae pob canolfan gyswllt a ddefnyddir gan Cafcass Cymru yn destun achrediad gan Gymdeithas Genedlaethol y Canolfannau Cyswllt Plant (NACCC).

Sut mae atgyfeiriad Cafcass Cymru yn cael ei symud ymlaen?

- Rhaid i'r FCA/FCSW gwblhau cofnod achos atgyfeirio gwasanaeth cyswllt ar IRIS.
- **Rhaid** i bob atgyfeiriad â chymorth i ganolfan gyswllt plant:
  - Nodi'r math o gyswllt y dylid ei gynnal
  - Yn dilyn y canllawiau ar hyd a nifer y sesiynau
  - Yn amlinellu ym mha ganolfan gyswllt â chymorth bydd y cyswllt yn digwydd.
- Bydd Tîm Gwasanaethau a Gomisiynir Cafcass Cymru yn trefnu i'r atgyfeiriad gael ei anfon i'r ganolfan gyswllt trwy e-bost diogel a bydd yn cysylltu â defnyddwyr y gwasanaeth er mwyn cadarnhau bod yr atgyfeiriad wedi'i wneud ac i ddarparu manylion y ganolfan gyswllt lle cawsant eu cyfeirio.
- Bydd y canolfannau cyswllt plant yn hysbysu'r Tîm Gwasanaethau a Gomisiynir i dderbyn yr atgyfeiriad cyn pen 10 diwrnod gwaith ar ôl derbyn atgyfeiriad a phan fydd cyswllt wedi dod i ben er mwyn cwrdd â'r gofynion monitro angenrheidiol.

Manylion Cyswllt

Ffôn – 0300 062 8855
E-bost – CafcassCymru.gwasagomisiynwyd@llyw.cymru

OGL © Hawlfraint y Goron 2022 WG44602